# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2019**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 2**
**3000N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 2**

**HYDREF 2019**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Mae 5 darn darllen ar y thema 'Môr' yn y llyfryn darllen sydd ar wahân.
Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Cyfrinachau'r Môr**

**A1.** Pa mor hir yw'r rhaglen 'Cyfrinachau'r Môr: Llongau o dan y Môr'? [1]
Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

Un marc am nodi:

26 munud ✓

Casglu Gwybodaeth

**A2.** Dewiswch y ddwy ffaith sy'n gywir drwy roi ✓ mewn dau flwch o'ch dewis. [2]

Un marc yr un hyd at ddau am nodi:

| | |
|---|---|
| Dim ond am longddrylliadau wrth ymyl Cymru y mae'r rhaglen yn sôn. | |
| Gallwch weld pob pennod o 'Cyfrinachau'r Môr' drwy glicio ar y ddolen. | ✓ |
| Cafodd y rhaglen ei chynhyrchu yn 2018. | ✓ |

Dehongli




© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**
**Môr o ffeithiau**

**A3.** Cysylltwch y ffeithiau cywir. [2]

1 marc am bob 2 ateb cywir:




Casglu gwybodaeth a dehongli
Mewnbynnu marc

**A4.** Yn eich geiriau eich hun, esboniwch beth yw ystyr y gair 'llongddrylliad' (llongddrylliadau) sy'n ymddangos yn y darn isod: [1]

Amcangyfrifir bod
**3,000,000**
o longddrylliadau ar waelod y môr a'r *Titanic* yw un o'r enwocaf.

Un marc am gyfleu'r syniad o long wedi ei dryllio/suddo/wedi bod mewn damwain/boddi llong ar waelod y môr.

Esbonio ystyr gair
✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Triongl Bermuda**

**A5.** Beth yw'r enw arall ar Driongl Bermuda? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

Un marc am nodi:

Triongl y Diafol ✓

Casglu Gwybodaeth

**A6.** Sut mae Ben yn teimlo am yr hyn mae ef wedi ei ddysgu yn yr ysgol? Sut mae Ben yn dangos ei deimladau? [5]

**0 marc**
Heb ymgeisio / ateb amherthnasol

**1 marc**
Gallu **cyfeirio** at un neu ddwy o nodweddion/gwybodaeth o'r darn darllen sy'n dangos teimladau'r awdur.

**2 farc**
Enwi ambell nodwedd/gwybodaeth o'r darn darllen sy'n dangos teimladau'r awdur a dyfynnu

**3marc**
**Trafod** sawl nodwedd/gwybodaeth o'r darn darllen sy'n dangos teimladau'r awdur gan ddyfynnu a **dechrau dehongli.**

**4 marc**
**Trafod** sawl nodwedd o'r darn darllen sy'n dangos teimladau'r awdur **yn dda gan ddyfynnu** a **dehongli'n dda.**

**5 marc**
Ateb manwl sy'n **trafod yn ddeallus** nodweddion/gwybodaeth arwyddocaol yn y darn gan ddyfynnu a **dehongli'n hyderus.**



© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| Ebychiadau | …yn yr ysgol heddiw yn fwy o hwyl!<br>… dw i BYTH yn ei wneud fel arfer!<br>am anhygoel!<br>Waw! |
| Llythrennau bras | BYTH / OND/ DIFLANNU |
| Ansoddeiriau | anhygoel / cyffrous |
| Elipsai/ataliaith/tawnodau | ar fwrdd y llong…<br>wedyn… |
| Adrodd/ rhestru hanesion | *Mary Celeste/Ellen Austin/amrywiol awyrennau* |
| Cyfarch | gwranda ar hyn! |
| Cwestiwn rhethregol | Ti'n deall pam...? |
| Cyfleu cyffro | Dw i'n edrych ymlaen… |
| Eisiau ymateb ei ffrind | Gad i mi wybod be wyt ti'n feddwl. |
| Trosiad | pelen o dân |
| Rhestru | rhestru straeon |
| Ffigurau/dyddiadau | |

Dehongli/gwerthuso

Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Dinas Goll Atlantis**

**A7.** Rhowch **ddau** reswm sy'n awgrymu nad oedd Atlantis yn bodoli go iawn. [2]

Un marc yr un hyd at ddau am nodi/cyfleu:
- gwaith dychymyg Plato oedd Atlantis
- dim olion yn bodoli i brofi ei fodolaeth
- dau gynhaeaf

Ni dderbynnir dim tystiolaeth/dim byd i brofi
✓ = 1 marc

Dehongli a chasglu gwybodaeth

**A8.** Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu anghywir trwy roi ✓ yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [3]

Un marc am bob dau ateb cywir hyd at dri marc:

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Roedd Plato yn defnyddio Atlantis i rannu negeseuon pwysig yn ei waith. | ✓ | |
| Yng nghanol y Môr Canoldir roedd Atlantis. | | ✓ |
| Roedd trigolion Atlantis yn bobl dlawd iawn. | | ✓ |
| Roedd bwyd yn tyfu yn Atlantis fwy nag unwaith y flwyddyn. | ✓ | |
| Zeus oedd enw duw'r môr. | | ✓ |
| Cafodd dinas Atlantis ei boddi. | ✓ | |
| Cleito oedd enw cariad Poseidon. | ✓ | |

Casglu gwybodaeth a dehongli
Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Darganfod Cymru**

**A9.** Enwch **un** nodwedd o'r darn darllen sy'n dangos mai tudalen o wefan yw 'Dargnafod Cymru'. [1]

Un marc am enwi un nodwedd gywir:

- Nodweddion: blwch chwilio/symbol chwilio/dolenni/dewislen/dolen/Hafan/ cyfeiriad gwefan/isdeitlau/logo/linc (Ni dderbynnir allwedd heb dystiolaeth)

Cyflwyniad cynnwys
✓ = 1 marc

**A10.** Edrychwch ar hanes 'Pentref Tresaith'. Esboniwch, yn eich geiriau eich hun, pam na fyddai'r bobl leol yn hapus ar ôl i saith merch gecrus brenin Iwerddon gyrraedd eu hardal? [1]

1 marc am gyfleu:

Naill ai:

- cenfigen am eu bod wedi priodi meibion y **ffermydd gorau** yn yr ardal/colli tir y ffermydd gorau

Neu:

- am eu bod yn ferched annifyr/ffraegar (angen aralleirio 'cecrus' i ddangos dealltwriaeth)

Dehongli
✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3,4 a 5**
**Triongl Bermuda**
**Dinas Goll Atlantis**
**Darganfod Cymru**

**A11.** Cyfunwch wybodaeth o'r darnau darllen i ysgrifennu erthygl fer am straeon rhyfedd y môr. [6]

Rhaid cynnwys gwybodaeth o ddau ddarn darllen o leiaf. Dylid tynnu 1 marc am wybodaeth o un darn yn unig.

**1 marc**
Gwybodaeth fras iawn o'r darnau darllen (1-4 ffaith)

**2 farc**
Gwybodaeth eithaf manwl o'r darnau darllen (5-8 ffaith)

**3 marc**
Gwybodaeth fanwl o'r darnau darllen a dangos y gallu i ddod â gwybodaeth berthnasol ynghyd (9+ ffaith)

**4 marc**
Dethol gwybodaeth yn dda a dod â gwybodaeth berthnasol ynghyd gan ddechrau ddehongli

**5 marc**
Dethol gwybodaeth yn dda iawn a dod â gwybodaeth berthnasol ynghyd gan ddehongli'n dda.

**6 marc**
Dethol gwybodaeth yn hyderus a dod â gwybodaeth at ei gilydd yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed.

Dod â gwybodaeth ynghyd/dehongli (enghreifftiau):

- Straeon am ddinasoedd dan y môr mewn mwy nag un ardal e.e. Cefnfor yr Iwerydd a Chymru
- Rhai yn amlwg yn ffrwyth dychymyg (Atlantis) a rhai ag elfen o wirionedd (olion Cantre'r Gwaelod)
- Damweiniau'n digwydd yn aml ar y môr - diflaniadau Triongl Bermuda a llongddrylliad Ina Sant.
- Rhai pethau anhygoel/anghredadwy/arallfydol - cawr yn cerdded tuag at Iwerddon/UFOs yn gyfrifol am ddiflaniadau Triongl Bermuda



© WJEC CBAC Cyf.

<table>
<tr><th>Triong Bermuda</th><th>Dinas Goll Atlantis</th><th>Darganfod Cymru</th></tr>
<tr>
<td>
• Ardal rhwng Bermuda, Puerto Rico a Florida/440,000 milltir sgwâr o fôr<br>
• Llawer o longau pleser a llongau cargo’n hwylio yno<br>
• Llawer o longau ac awyrennau wedi diflannu yno<br>
• Storïau am ddiflaniadau’n dechrau yn yr ugeinfed ganrif<br>
• USS Cyclops a 309 o forwyr/ awyrennau America/300 o longau a 75 awyren<br>
• Pobl yn diflannu oddi ar longau<br>
• Triongl y Diafol yn enw arall<br>
• Cwmpawd Christopher Columbus wedi stopio gweithio/gweld pelen o dân/cwmpawd yn drysu de a gogledd yno<br>
• Pobl yn credu bod pethau goruwchnaturiol yn digwydd yno<br>
• UFOs neu fôr-ladron/portwll neu ffenest i blanedau eraill<br>
• Stormydd/nam ar y cwmpawd<br>
• Hanes y Mary Celeste<br>
• Hanes yr Ellen Austin
</td>
<td>
• Gwaith dychymyg Plato – rhannu negeseuon yn ei waith<br>
• Dim olion i brofi bod Atlantis yn bodoli go iawn<br>
• Ynys yng nghanol Cefnfor yr Iwerydd<br>
• 11,000 o flynyddoedd yn ôl<br>
• Adnoddau naturiol/trigolion cyfoethog/canolfan fasnach bwysig<br>
• Poseidon yn adeiladu cartref i Cleito<br>
• Atlas yn dod yn frenin<br>
• Dau gynhaeaf/pob math o anifeiliaid yno<br>
• Pobl yn cael eu llygru gan chwant<br>
• Zeus yn dial ac Atlantis yn diflannu
</td>
<td>
• Lleoloiad Cantre’r Gwaelod<br>
• Tir ffrwythlon<br>
• Olion yn bodoli<br>
• Gwyddno Garan Hir/Seithennyn<br>
• Gwaith/esgeulustod Seithennyn<br>
• Tri yn goroesi<br>
• Saith merch brenin Iwerddon<br>
• Priodi ffermwyr<br>
• Ina Sant - brenin o’r wythfed ganrif<br>
• Llongddrylliad a throi’n fynach<br>
• Branwen yn cael ei charcharu ar draws y môr<br>
• Manylion Bendigeidfran yn achub ei chwaer
</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="3">
• Diflaniadau’n thema gyffredin – cychod/awyrennau/ynys gyfan/cantref<br>
• Pobl yn diflannu/boddi<br>
• Damweiniau/dial esgeulustod – rhesymau gwahanol tu cefn i’r hanesion<br>
• Hanesion o’r gorffennol<br>
• Bai ar unigolion yn Atlantis a Chantre’r Gwaelod<br>
• Dirgelwch o gylch y chwedlau/hanesion<br>
• Olion a diffyg olion fel tystiolaeth<br>
• Drwgdeimlad – Atlantis, Pentref Tresaith a Branwen<br>
• Hanesion rhyfedd ym mhob ran o’r byd<br>
• Y môr yn llinyn cyswllt ym mhob un/elfen o berygl i bobl<br>
• Diofalwch yn arwain at ddinistr – chwant/Seithennyn<br>
• Tir ffrwythlon yn Atlantis a Chantre’r Gwaelod a ffermydd llewyrchus yn Nhresaith<br>
• Ffigurau pwerus/awdurdod – Zeus/Gwyddno/Bendigeidfran/brenin Iwerddon<br>
• Gwybod am enwau pobl sy’n rhan o’r hanesion – Benjamin Briggs/Zeus/Gwyddno/Seithennyn/Ina/Branwen/ Bendigeidfran<br>
• Haws credu hanes Triongl Bermuda gan ei fod yn fwy diweddar/chwedlau Cymru gan fod olion/dylanwad ar enwau llefydd<br>
• Tranc pobl yn amrywio yn y chwedlau - pawb yn goroesi yn Atlantis ond tri yn goroesi Cantre’r Gwaelod/Ina’n cael ei achub<br>
• Cariad yn rhan o sawl chwedl yn ymwneud â’r môr – Poseidon a Cleito/priodi ffermwyr/anghydfod Branwen a Matholwch<br>
• Dial i’w weld mewn ambell chwedl – Branwen ac Atlantis
</td>
</tr>
</table>

Cyfuno, dehongli a chrynhoi

Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**A12. Golygu (5 marc)**

(i) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch y gair cywir i lenwi'r bwlch drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Cafodd cast a chriw cynhyrchu 'Culhwch' eu llongyfarch ar ôl ennill y wobr am y ffilm ____________ yn seremoni wobrwyo BAFTA neithiwr.

Un marc am nodi:
orau ✓
✓ = 1 marc

(ii) Darllenwch y frawddeg isod a dewiswch yr idiom sydd fwyaf addas drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Teimlai Fflur ______________ gyda'i hanrheg pen-blwydd gan fod arni eisiau clustffonau newydd ers amser.

Un marc am nodi:
ar ben ei digon ✓
✓ = 1 marc

(iii) Gosodwch y geiriau priodol yn y bylchau canlynol. [3]

Un marc yr un hyd at dri am nodi:

(a) cenedl

(b) cenedlaethol

(c) cenedlaethau

Rhaid sillafu'n gywir
✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)

### B1. Prawf ddarllen

(i) Darllenwch y darn canlynol. Mae tri gwall ynddo. Chwiliwch am y **tri** gwall a chywirwch nhw ar y tabl sy'n dilyn y paragraff. [3]

| |
|---|
| Mae'r ffilm hon yn un arbennig iawn ag iddo blot suml. Rwy'n sicr yn argymell y ffilm. Mae hi'n gwych! |

Un marc yr un am bob gwall a chywiriad hyd at dri marc:

| Gwall | Cywiriad |
|---|---|
| ag iddo | (ag) iddi |
| suml | syml |
| (mae hi'n) gwych | (mae hi'n/mae'n) wych |

✓ = 1 marc

(ii) Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ wrth yr ateb cywir. [1]

Un marc am nodi:
dau gi ✓
✓ = 1 marc

(iii) Cywirwch y frawddeg ganlynol. Dylech ysgrifennu'r frawddeg yn gywir ar y llinell. [1]

Ydy'r parti yfory yn tŷ ti?

Un marc am:
(Yn) dy dŷ (di)
✓ = 1 marc


© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**



© WJEC CBAC Cyf.